**Tu mewn:**


| | |
|---|---|
| Mae Gloÿnnod Byw eich Angen Chi! | 1 |
| Gwaharddiad ar werthu planhigion dyfrol | 1 |
| Mae'r Ymosodiad Yma! | 2 |
| Camera Ystlumod Byw | 2 |
| Cadwraeth Nant Swinchiard | 3 |
| System Gofnodi Gweithredu | 3 |
| Lansio MaMoNet | 4 |
| Wythnos Bioamrywiaeth Cymru | 6 |
| Cysylltwch a ni | 7 |
| Ddigwydiadau'r Hâf | 7 |


# Mae Gloÿnnod Byw eich Angen

Mae hwn yn apêl am wirfoddolwyr i gymryd rhan yn yr Arolwg Gloÿnnod Byw Cefn Gwlad Ehangach (WCBS) yng Ngogledd Cymru. Y WCBS yw'r prif gynllun ar gyfer monitro newidiadau poblogaeth gloÿnnod byw mwyaf cyffredin Prydain. Mae'r arolwg hwn yn brosiect partneriaeth a gynhelir ar y cyd gan Gadwraeth Gloÿnnod Byw, Ymddiriedolaeth Adaryddiaeth Prydain a'r Ganolfan Ecoleg a Hydroleg.

Mae'r cynllun yn hanfodol er mwyn helpu asesu a yw mesurau cadwraeth cenedlaethol gan gynnwys cynlluniau grant amaeth amgylcheddol a choetiroedd yn cael effaith fesuradwy o safbwynt helpu cadw ac adfer poblogaeth gloÿnnod byw ar draws y wlad yn gyffredinol. Mae'r adroddiad 'State of the UK's Butterflies 2011' a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn dangos fod rhywogaethau gloÿnnod byw cefn gwlad ehangach fel grŵp wedi gostwng o 24% dros y ddeng mlynedd ddiwethaf. Mae gwir angen eich help arnom i gynyddu ardal yr arolwg.

Y cyfan sydd ei angen yw dau ymweliad craidd y flwyddyn i 1km sgwâr penodol (un ym mis Gorffennaf ac un ym mis Awst) gydag ymweliad dewisol yn y gwanwyn i gyfrif blaenau oren a rhywogaethau hedfan cynnar eraill. Gan ddibynnu ar y dirwedd mae un ymweliad yn cymryd oddeutu un awr. Os nad oes arolwg wedi'i gynnal ar sgwâr o'r blaen bydd angen



i chi dderbyn caniatâd y tirfeddiannwr (rydym yn darparu llythyr i chi) a sefydlu llwybr trawslunio (mae arweiniad ar gael), a fydd yn cynyddu hyd eich ymweliad cyntaf.

Os oes gennych ddiddordeb gwirfoddoli i gymryd rhan yn y WCBS anfonwch e-bost at gydlynydd Gogledd Cymru i amy.e.green@flintshire.gov.uk

THE BIG DEE DAY / DIWRNOD MAWR Y DDYFRDWY — THE INVASION | YR YMOSODIAD

**Paid a golli allan ar 'Diwrnod Mawr Y Ddyfrdwy - Yr Ymosodiad' 28 & 29 Mehefin!**

**Mwy wybodaeth tu mewn.**

# Gwaharddiad ar werthu planhigion dyfrol ymwthiol

Mae llywodraeth y DU wedi cyhoeddi y bydd yn cyflwyno gwaharddiad ar werthu pum planhigyn dyfrol anghynhenid a oedd yn arfer bod ar werth mewn canolfannau garddio. Y rhywogaethau a waherddir yw rhedyn y dŵr (Azolla), milddail y dŵr (parrot's feather), ceiniog y gors, briallen y dŵr a briweg y gors Awstralia (Crassula). Dylai'r gwaharddiad hwn helpu atal lledaeniad y rhywogaethau hyn sydd eisoes wedi achosi difrod i gynefinoedd dyfrol ar draws Prydain ac yn costio miliynau o bunnoedd y flwyddyn i'w rheoli.



© GB Non-Native Species Secretariat

# Mae’r ymosodiad yma!








Rwy’n siŵr eich bod chi’n ymwybodol am y frwydr barhaus rhwng cadwraethwyr a rhywogaethau ymwthiol nad ydynt yn gynhenid i Brydain, rhywogaethau fel ffromlys chwarennog yr Himalaia, llysiau’r dial (Japanese knotweed), cimwch afon arwyddol, y minc Americanaidd, yr efwr enfawr a’r cranc manegog Tsieineaidd. Yn dilyn digwyddiad glanhau'r afon blynyddol hynod lwyddiannus Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy, eleni rydym yn cynnal ein digwyddiad Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy - Yr Ymosodiad cyntaf erioed, sy’n cynnwys dalgylch cyfan y Ddyfrdwy yng Nghymru a Lloegr.

Ein nod yw codi ymwybyddiaeth am broblem rhywogaethau ymwthiol anghynhenid a sut y gall pobl helpu, yn ogystal â chodi proffil systemau cofnodi fel Cofnod a Record drwy gael rhai pobl yn cymryd rhan i gofnodi yn ble mae rhywogaethau’n bresennol. Bydd hyn hefyd yn ein helpu i gynllunio rheolaeth yn y dyfodol a mapio ein cynnydd.

Mae hwn yn ddigwyddiad deuddydd, ar 28 a 29 Mehefin eleni a’r nod yw dod â nifer o ddigwyddiadau unigol ynghyd dan faner Diwrnod Mawr y Ddyfrdwy - Yr Ymosodiad. Bydd lansiad amser brecwast ddydd Gwener ac yna dau ddiwrnod o gofnodi a rheoli’r rhywogaethau ymwthiol hyn yn nalgylch y Ddyfrdwy. Gwahoddir y cyhoedd a sefydliadau i ymuno â ni. Caiff digwyddiadau lleol eu hysbysebu a gall eich swyddog Bioamrywiaeth lleol hefyd roi gwybod i chi am ddigwyddiadau sy’n digwydd wrth eich ymyl chi.

Os hoffech chi neu eich grŵp gymryd rhan yn y digwyddiad hwn, gallwch gofrestru eich diddordeb drwy fynd i wefan Bionet ar www.bionetwales.co.uk a chlicio ar y ddolen i anfon e-bost neu gysylltu â’ch Swyddog Bioamrywiaeth lleol.

# Camera Ystlumod Byw

Gall y cyhoedd rŵan edrych ar luniau byw o fan clwydo’r ystlum trwyn pedol lleiaf ar-lein. Mae’r man clwydo yng Ngwesty Neuadd Bodidris ger Llandegla, mae’n fan clwydo ‘mamolaeth’ neu ‘feithrin’ a chaiff ei ddefnyddio gan ystlumod benyw i roi genedigaeth a magu ystlumod ifanc dros fisoedd yr haf. Gellir cael mynediad i’r ffrwd fyw o adran ‘prosiectau’ gwefan bioamrywiaeth Sir Ddinbych, www.cefngwladsirddinbych.co.uk.

Mae’n well gan ystlumod benyw amodau cynhesach i helpu datblygiad eu hystlumod ifanc, ond mae’n well gan ystlumod gwryw dymheredd fymryn yn oerach, sy’n helpu cynnal egni. Mae mantais arall i fagu ystlumod ifanc gyda’i gilydd mewn grŵp: cael rhywun i warchod! Pan mae’r ystlumod benyw’n mynd allan i hela gyda’r nos, mae rhai’n aros ar ôl i warchod yr ystlumod ifanc cyn eu bod yn ddigon hen i hela dros eu hunain.

Mae’r ystlum trwyn pedol lleiaf yn un o rywogaethau mwyaf prin Prydain. Mae hefyd yn un o’r lleiaf, gyda lled adenydd o 20-25cm. Mae’r diet yn cynnwys pryfed fel gwybed mân a gwyfynod bach. Fel pob ystlum ym Mhrydain, maent yn defnyddio ecoleoli i hela. Fodd bynnag, mae ystlumod trwyn pedol lleiaf yn anghyffredin gan fod y curiadau sain yn cael eu rhyddhau drwy eu trwynau yn hytrach na’u cegau. Mae gan ystlumod trwyn pedol mwyaf a lleiaf drwynau cymhleth siâp pedol sy’n helpu cyfeirio curiadau ecoleoli.

Yn ogystal â’r ffrwd fyw, mae’r lluniau’n cael eu recordio fel bod modd eu dadansoddi i astudio ymddygiad ystlumod. Gobeithir y bydd hyn yn cynyddu ein dealltwriaeth o’r rhywogaeth ac yn helpu gwella mesurau cadwraeth i’w ddiogelu.

Os hoffech chi ddysgu rhagor am ystlumod, mae Gwasanaeth Cefn Gwlad Sir Ddinbych yn cynnal nifer o deithiau cerdded a digwyddiadau ystlumod dros yr haf. Ewch i www.cefngwladsirddinbych.org.uk i gael y rhaglen lawn o ddigwyddiadau.

# Cadwraeth Nant Swinchiard

Ffurfiwyd Grŵp Addysg Bywyd Gwyllt y Fflint rai blynyddoedd yn ôl gyda'r pwrpas o reoli a gwella Nant Swinchiard, ar gyfer pobl sy'n ymweld â'r safle ac ar gyfer y bywyd gwyllt sy'n preswylio yno. Ffurfiwyd y grŵp gan bobl leol sydd eisiau diogelu gofodau gwyrdd y Fflint.

Nod y prosiect hwn yw sicrhau cadwraeth, monitro a chofnodi rhywogaethau o fflora a ffawna er mwyn codi ymwybyddiaeth amdanynt, a sicrhau eu bodolaeth ar gyfer cenedlaethau i ddod. Ystyrir y nant yn un agored i niwed yn lleol gan ei fod yn dirlun rhannol naturiol mewn lleoliad trefol. Mae'r safle'n goridor sy'n cynnwys nant sy'n llifo drwy ddwy stad ddiwydiannol ac mae ei fodolaeth fel hafan i fywyd gwyllt yn hynod werthfawr. Mae'r nant sy'n llifo drwy'r coetir yn isafon i'r foryd. Nid yw nifer o drigolion lleol yn ymwybodol o'r hyn sydd ar eu stepen drws, a bydd codi'r proffil hwn yn fuddiol i'r holl gymuned drwy ddod â chenedlaethau at ei gilydd.

Pwyslais y rhaglen yw monitro pa rywogaethau sydd i'w cael yn yr ardal, a byddant yn cael eu cofnodi gan wirfoddolwyr lleol, ysgolion a grwpiau diddordeb. Mae'r Swyddog Bioamrywiaeth lleol a Cofnod - Canolfan Gofnodion Gogledd Cymru - wedi sefydlu system recordio syml fel bod gwirfoddolwyr a rhai sy'n cyfrannu yn gallu mewnfwydo data o'r safle. Byddwn yn helpu pobl i fewnfwydo'r data hwn, er mwyn eu hannog i rannu canlyniadau, nid yn unig yr arolygon hyn ond hefyd bywyd gwyllt arall maent yn sylwi arno wrth fynd allan gyda theulu a ffrindiau. Bydd canfyddiadau'r arolygon hyn yn cynnig sail ar gyfer gweithdai gydag ysgolion lleol a grwpiau cymunedol, er mwyn codi ymwybyddiaeth am rywogaethau a ddiogelir, amlygu bygythiadau i'r rhywogaethau hyn, ac felly gweithio i sicrhau eu bod yn ffynnu dros y blynyddoedd i ddod.

TCV yw'r partner arweiniol yn y prosiect ac maent yn derbyn cefnogaeth Tîm Bioamrywiaeth Cyngor Sir y Fflint, Cadwch Gymru'n Daclus, Cymunedau yn Gyntaf y Fflint, Cofnod, Tai Clwyd Alyn, Grŵp Addysg Bywyd Gwyllt y Fflint, Camau Nesaf Sir y Fflint ac Ymddiriedolaeth Natur Gogledd Cymru.

Hyd yn hyn, rydym wedi rhedeg y cyrsiau ID a ganlyn ar lan y nant: adar, ystlumod, coed a gloÿnnod byw; a byddwn yn cynnal sesiynau ar ymlusgiaid, amffibiaid, planhigion a phryfed. Rydym wedi sefydlu cysylltiadau da gydag Ysgol Gynradd Cornist Park, sydd wedi bod yn monitro'r boblogaeth o adar ac yn gosod bocsys nythu, a gydag Ysgol Arbennig Maes Hyfryd, sydd wedi dechrau adeiladu gwesty pryfed. Mae croeso cynnes i bobl leol sydd â diddordeb i ymuno â'r digwyddiadau hyn, drwy gysylltu â Hywel Dodd ar h.dodd@tcv.org.uk neu 01978 366223

Hywel Dodd, TCV

# System Gofnodi Gweithredu

Efallai bod rhai ohonoch wedi clywed am y System Gofnodi Gweithredu Bioamrywiaeth (neu BARS fel y mae'n cael ei galw'n aml) sydd i'w chael ar www.ukbars.defra.gov.uk ac sydd o fewn cyrraedd i bawb! Mae'n cael ei gefnogi gan DEFRA, y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur, Natural England, Cyfoeth Naturiol Cymru, Scottish Natural Heritage, Northern Ireland Environment Agency, Asiantaeth yr Amgylchedd, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru ac Ymddiriedolaeth y Rhwydwaith Bioamrywiaeth Cenedlaethol.

Cronfa ddata a system fapio ar-lein yw BARS sy'n tynnu sylw at weithredu bioamrywiaeth ymarferol sy'n digwydd er budd cynefinoedd a rhywogaethau pwysig yn ogystal â darparu crynodebau data. Caiff ei defnyddio hefyd i adrodd ar weithredu a gwblhawyd. Gall unrhyw un gofrestru a defnyddio BARS i fewnfwydo gweithredoedd ac mae angen i chi gofrestru i weld gweithredu bioamrywiaeth ymarferol sy'n digwydd yn unrhyw le.

I weld beth sy'n digwydd yn eich ardal chi neu yn rhywle arall, ewch i'r wefan ac edrych ar y mapiau gweithredu neu chwilio gyda'r bar offer yn y gornel uchaf ar y dde.

# Lansio MaMoNet

*Na, nid rhywogaeth newydd nad yw gwyddonwyr yn gwybod amdani, ond prosiect newydd, blwyddyn o hyd yng Nghymru sy'n canolbwyntio ar gasglu data poblogaeth ar ddraenogod a llygod medi!*

Nod prosiect Mammal Monitoring Network (MaMoNet) Cymru yw annog gwyddoniaeth dinasyddion i helpu casglu rhagor o ddata ar y ddwy rywogaeth hon. Mae'r data sydd ar gael yn awgrymu bod y ddwy'n dirywio, yn wir nododd y Cydbwyllgor Cadwraeth Natur (JNCC) ostyngiad o 50% yn niferoedd draenogod dros y 25 mlynedd diwethaf. Gyda data cadarn fodd bynnag, gellir llunio strategaeth gadwraeth. Dyma ble mae'r hwyl yn dechrau!



Twnnel draenogod

## Olion traed yn yr Inc

Er mwyn cael data ar boblogaeth y draenog yng Nghymru, rydym yn gofyn i bobl osod un o dwnneli olion traed Cymdeithas y Mamaliaid ar hyd llwybr llinol fel  gwrych neu wal dros fisoedd yr haf pan fod draenogod yn weithredol. Gall hyn fod yn eu gardd neu'n rhywle arall cyn belled fod y tirfeddiannwr wedi rhoi caniatâd. Mae angen gosod abwyd yn y twnneli ac wrth i'r draenog, neu yn wir unrhyw famaliaid eraill, gerdded drwy'r twnnel i gael yr abwyd, maent yn cerdded dros ychydig o inc ac wedyn caiff eu printiau eu dal ar ddarn o bapur wrth iddynt gerdded allan o'r twnnel. Mae siart ID olion traed wedi'i gynnwys gyda'r offer twnnel i helpu'r rhai sy'n cymryd rhan i adnabod pa famaliaid sydd wedi bod yn crwydro yn eu gerddi dros nos. Mor syml fel bod unrhyw un, hyd yn oed pobl sy'n newydd i fyd y mamaliaid, yn gallu rhoi cynnig arni hefyd!

Gellir prynu twneli o wefan Cymdeithas y Mamaliaid drwy'r ddolen **Survey Mammals** neu fel arall, gall pobl roi cynnig ar greu eu twnnel eu hunain drwy ddilyn yr **Assembly Instructions** ar y wefan.

Gellir defnyddio'r twnelau eto ac eto a dim ond abwyd a phapur ffres fydd ei angen bob tro.  Yn y treialon a wnaed gyda'r twnnel, roedd draenogod yn ymateb orau i gŵn poeth!



© Derek Crawley

Rydym wedyn yn gofyn i'r rhai sy'n cymryd rhan i lwytho eu canfyddiadau i fyny i'r **Mammal Society Atlas** drwy glicio ar y ddolen **Submit Records**.

Mae'r Prosiect Atlas Mamaliaid Cenedlaethol (NMAP) wedi bod yn cael ei gynnal ers dros flwyddyn. Nod y prosiect yw pennu dosbarthiad a chyflenwad mamaliaid ar draws Ynysoedd Prydain.  Bydd hyn yn ei dro'n hwyluso cadwraeth mamaliaid priodol. Hyd yn hyn, cyflwynwyd dros 7,500 o gofnodion mamaliaid gan ddefnyddio'r ffurflen ar-lein sy'n hawdd i'w llenwi! Beth am gael mwy o ganlyniadau o Gymru ar yr atlas!

Fodd bynnag, os nad oes gan y rhai sy'n cymryd rhan fynediad i'r we neu os yw'n well ganddynt gael ffurflen i'w hanfon drwy'r post, mae hyn hefyd yn bosibl. Y cyfan sydd angen i chi ei wneud yw postio'r ffurflenni atom i Gymdeithas y

Mamaliaid ac fe wnawn ni lwytho'r data i'r wefan. Gall unrhyw un sy'n dymuno cael ffurflen i'w hanfon drwy'r post gysylltu â Becky – gweler y manylion cyswllt isod.

Os ydych chi'n bwriadu gosod twnnel, rhowch wybod i Becky. Mae hi'n awyddus i gael yr wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn â lleoliad y twneli a faint o ymdrech mae pobl yn ei wneud. Anfonwch e-bost ati i roi gwybod beth yw eich cynlluniau!

## Mae'r Hela wedi dechrau...

...am nythod y llygoden fedi hynny yw.

Gan weithio gyda'r prosiect Mamaliaid mewn Amgylchedd Cynaliadwy (MISE)[1], rydym yn bwriadu cynnwys cymaint â 1km$^2$ tetrad yng Nghymru wrth i ni chwilio am nythod unwaith y bydd y tymor bridio wedi dod i ben.

Cynhaliwyd arolwg tebyg yn yr 1970au ac unwaith eto yn yr 1990au felly drwy sicrhau fod y tetradau 1km$^2$ hynny'n cael eu monitro eto, bydd modd i ni gymharu data. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd gwirfoddolwyr yn barod i gynnwys tetradau newydd nad oes arolygon wedi'u cynnal arnynt o'r blaen.

Byddwn yn trefnu rhai sesiynau hyfforddiant yn ddiweddarach yn yr haf ac yna gall gwirfoddolwyr gynnal arolygon ar y tetrad(au) a ddyrannwyd iddynt.

Os hoffech chi gael eich cynnwys ar restr ddosbarthu i dderbyn gwybodaeth bellach ar arolygon y llygod medi pan fydd yr wybodaeth yn cael ei rhyddhau cysylltwch â mi a rhowch wybod i mi.

Arolygu hapus i chi!



© Derek Crawley

Cysylltwch â: Rebecca Clews-Roberts, Swyddog Prosiect, MaMoNet Cymru

r.clews-roberts@themammalsociety.org / 07743 085 374

Dyma'r tro cyntaf i Gymdeithas y Mamaliaid gyflogi swyddog yng Nghymru ac maent yn ddiolchgar iawn i Cyfoeth Naturiol Cymru (Cyngor Cefn Gwlad Cymru gynt) am helpu i ariannu'r prosiect.

[1]Mae'r Prosiect Mamaliaid Mewn Amgylchedd Cynaliadwy (MISE) yn bartneriaeth rhwng Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Vincent ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, yng Nghymru; a'r Waterford Institute of Technology, Waterford County Council a'r National Biodiversity Data Centre yn yr Iwerddon.

Nod y prosiect yw monitro rhywogaethau mamaliaid o ddiddordeb cadwraeth, gyda chymorth technegau genetig newydd, a gweithio gyda gwirfoddolwyr i godi ymwybyddiaeth, a chynnwys y cyhoedd mewn arolwg mamaliaid a gwaith cadwraeth. Ariennir MISE yn rhannol gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop (ERDF) drwy Raglen Cymru ac Iwerddon (INTERREG 4A).

## *Dydd Sadwrm  8 Mehefin*

### Diwrnod crefftau'r coetir

2.00pm - 4pm

Gwarchodfa Natur Leol Bryn Euryn, oddi ar Rhos Road LL28 4TT

Ffon i archebu: 01492 575541

## *Dydd Mawrth 11 Mehefin*

### Bwystfilod Bach!

10am—12pm

1pm - 3pm  @ Melin y Nant

Ffon: 01978 752772

### Mwynhau'r Môr-wenoliaid

10am - 12pm  @ Gronant

Dewch draw i'r llwyfan gwylio ar y twyni i gyfarfod un o'r wardeiniaid

Ffon: 01352 810614

## *Dydd Mercher 12 Mehefin*

### Her Cyflymder Bioamrywiaeth

10am - 12pm

1pm - 3pm  @ Dyfroedd Alyn

Ffon: 01978 763140

### Helfa Chwilod i Ddechreuwyr

1.30pm - 3.30pm

Parc Gwledig Loggerheads

Ffon: 01352 810614

Mae archebu'n hanfodol.

### Bwrw Balsam a Bwyta Bwffe

Caergwrle

6pm - 9pm

Dewch i ddechrau tymor arall o dynnu balsam Himalaia yn nyffryn yr Alun. Byddwn yn dechrau gyda'r hwyr ac yn mwynhau bwffe wedyn.

Ffon: 01352 703263

Mae archebu'n hanfodol.

## *Dydd Iau 13 Mehefin*

### 'O Goed Gwych!

10am - 12pm

1pm - 3pm  @ Bellevue

Ffon: 01978 264150

### Planhigion a Thyfu

10am - 12pm

1pm - 3pm @ Ty Mawr

Ffon: 01978822780



Cymryd ar Swinchiard Brook

### Bywyd y Nos yn Nercwys

8:30pm - 11.00pm

Ffon: 01352 810614

## *Dydd Gwener 14 Mehefin*

### Y Gwyllt Gwych

10am - 12pm

1pm - 3pm  @ Parc y Ponciau

Ffon: 01978 844028

### Noson yn Fferm y Fron

8:30pm-11:30pm

Ymunwch â ni am daith o amgylch dolydd a choetir Fferm y Fron sy'n cael ei rheoli'n ofalus i hybu bywyd gwyllt, y dirwedd, archaeoleg a mynedfa.

Dewch â thortsh.

Ma'en archebu'n hanfodol.
Ffon: 01352703263

## *Dydd Sul 16 Mehefin*

### Darganfod gloynod glas!

1.00pm

Mynydd Marian, Llysfaen

Ffon i achebu: 01492  575547

### Diwrnod Hwyl Bywyd Gwyllt

11am - 4pm

Parc Gwledig Loggerheads

Ffon: 01352 810614

Biodiversity Network North East Wales
Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Dwyrain Cymru

# Cysylltwch â ni

**Wrecsam**: **emma.broad@wrexham.gov.uk**

Ffon: 01978 298762

**Sir y fflint: amy.e.green@flintshire.gov.uk**

Ffon: 01352 703263

**Sir Ddynbych:**

**elizabeth.webster@denbighshire.gov.uk**

Ffon: 01824 708263

**Conwy: anne.butler@conwy.gov.uk**

Ffon: 01492 575123

# Dilynwch Ni!

Os ydych yn hoffi ein tudalen ar Facebook, sef Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd Ddwyrain Cymru, byddwch yn derbyn y wybodaeth ddiweddaraf am brojectau bioamrywiaeth yng Nghonwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam. Rydym yn llwytho newyddion i'r safle yn eich hysbysu o newyddion cyffrous, digwyddiadau, ffotograffau a phrojectau yn yr ardal. Dyma ffordd syml a chyflym, ffordd sy'n rhad am ddim hefyd, o ddod i wybod pa weithgareddau bioamrywiaeth sy'n digwydd a sut allwch chi gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn o fewn eich sir.

Ymhellach, mae gennym gyfrif ar Twitter sy'n debyg i Facebook – gallwch dderbyn newyddion rheolaidd, a gwybodaeth am lwyddiannau a digwyddiadau.

Felly, dilynwch ni ar Facebook: www.facebook.com/NEWBionet

Twitter: @newbionet

Like

# Ddigwydiadau'r Hâf

Dim ond rhagflas o'r holl weithgareddau sydd wedi'u trefnu dros yr haf yw hwn. Ewch i'n gwefan neu cysylltwch â'ch swyddog bioamrywiaeth lleol i gael gwybodaeth am ragor o ddigwyddiadau.

**Dyfroedd Alyn - Taith Gerdded Tergeirian Am Ddim Efo Arweinydd**

Dydd Mercher 17 Gorffennaf - 1:30pm - 3:30pm

Croesawu pob oedran, cysylltwch a: 01978763140

**Dipio mewn llyn I blant - Comin mynydd Helygain**

Dydd Mercher 24 Gorffennaf

1.30pm - 3.30pm

Ymunwch a'r Gwarchodwr I weld y creaduriaid sy'n byw mewn llyn ar y mynydd. Gwisgwch esgidiau glaw. Bydd yr offer dipio ar gael ichi. Rhaid I bob plentyn ddod gydag oedolyn. Rhaid archebu lle: Parc Wepre ar 01244 814931.

**Darganfod Ystlumod Denbigh**

Dydd Iau 1 Awst

8:30pm - 10:30pm

Ymunwch a ni ar daith gerdded 3 milltir o gwmpas Tref Hanesyddol, Castell and Choetiroedd Hynafol i ddarganfod pa ystlumod sydd yno. Darperir confodyddion on dewch ag un eich hunan os oes gennych, a thorsh. Cyfarfod: ym Melin Brookhouse, Dinbych SJ071657. Mae archebu'n hanfodol, cysylltwch ar 01352 810614.

**Taith y Traeth**

Dydd Sadwrn 17 Awst

12:45pm - 2:30pm

Dewch a'ch plant I fwynhau pyllau glan y mor ardderchog traeth y gogledd, Llandudno. Mi wnawn ni eich helpu i adnabod rhai o'r creaduriaid sydd yma. Bydd angen dod a wellingtons, dillad sy'n dal dwr a thwbyn i 'ch helpu i ddangos yr hyn y dewch chi o hyd iddo.

Cyfarfod: Ger y Pier, North Parade, Llandudno LL30 2LP. Mae am ddim a mae archebu'n hanfodol, cysylltwch ar 01492 874151. Mae'n ddrwg gennym dim cwn.